**EITEM AR YR AGENDA: 12**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15fed Hydref 2012**

**Y PWYLLGOR MATERION CENEDLAETHOL**

**Adroddiad gan Simon Smith, Prif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Diweddaru'r Aelodau am y gwaith yr ymgymerir ag ef dan arweiniad y Pwyllgor Materion Cenedlaethol.

## Cefndir

2 Ym mis Rhagfyr 2011 rhoddodd Aelodau'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru ystyriaeth i adroddiad ar y cyd gan y Prif Swyddogion Tan a oedd yn amlinellu nifer ro opsiynau strategaethol arfaethedig mewn perthynas â'r trefniadau llywodraethu a strwythurol ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru yn y dyfodol. Yn y cyfarfod hwnnw, fe awgrymodd yr Aelodau pa fodel yr oeddent yn ei ffafrio a phenderfynwyd bod angen trafodaeth, gwaith ymchwil a dadansoddiad pellach ynghylch sefydlu Pwyllgor Materion Cenedlaethol (PMC) ar gyfer y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru.

## Gwybodaeth

3 Cafodd cylch gorchwyl y PMC ei gymeradwyo gan y tri Awdurdod Tân ac Achub ym mis Mawrth 2012 a'i nodau yw datblygu a gweithredu trefniadau ar gyfer cyflwyno gwaith strategol a chydlynedig ar y cyd. Mae aelodau'r PMC yn cynnwys Cadeiryddion, Dirprwy Gadeiryddion, y Prif Swyddogion Tân a'r Dirprwy Brif Swyddogion Tân y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru. Sefydlwyd gweithgorau sydd yn cael eu harwain gan uwch swyddogion er mwyn adolygu pob agwedd o'r Tri Gwasanaeth Tân ac Achub.

4 Mae'r PMC wedi cyfarfod ddwywaith ers ei gyfarfod cyntaf ym mis Gorffennaf 2012. Yn ei gyfarfod cyntaf, fe gymeradwywyd y trefniadau llywodraethu a busnes a derbyniwyd adroddiad a oedd yn argymell y dylai'r tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru gadw at un fframwaith mewn perthynas â phrynu cerbydau ysgafn. Rhagwelir y bydd hyn yn arbed £600,000 ar draws y tri ATA dros gyfnod o 5 mlynedd. Cafodd y Siarter Ymateb i Danau Mewn Anheddau ar gyfer Cymru gyfan hefyd ei chyflwyno yn y cyfarfod.

5 Yn ei ail gyfarfod ar 25ain Medir 2012, cytunwyd y dylid cwblhau adolygiad strategol o'r gwasanaethau gweithredol sy'n cael eu cyflenwi a chydnerthedd dros Gymru gyfan, fel rhan o'r ffrwd gwaith "Trefniadau Cydnerthu Effeithiol ar gyfer Argyfyngau Mawr". Bydd hyn yn galluogi'r PMC i roi cyfle i'r ATAau roi sylw i gyflenwad y gwasanaeth ar sail Cymru gyfan er mwyn pennu'r lefel addas o ddarpariaeth mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol difrifol. Dyma ddarn o waith arloesol iawn, a bydd y canlyniadau yn cael eu cyflwyno i'r ATAau i'w hystyried yn unigol.

6 Bydd rhagor o waith yn cael ei gwblhau mewn perthynas á'r "Trefniadau Rheoli Cenedlaethol" a sefydlwyd eisoes. Mae'r timau prosiect wrthi'n casglu data ar hyn o bryd ar gyfer meysydd archwilio allweddol eraill yn cynnwys Caffael, Hyfforddiant a Datblygiad, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Cyffredin ac Arbenigol. Bydd ffrwd gwaith y Gwasanaethau Cyffredin ac Arbenigol yn edrych ar ystod eang o swyddogaethau yn cynnwys Rheolaeth Ariannol, TGCh a Thrafnidiaeth fel y gallwn ddysgu oddi wrth ein gilydd a sicrhau arbedion ariannol ar draws y tri Gwasanaeth.

7 Bydd adroddiadau yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd yng nghyfarfodydd yr Awdurdod a'r Panel Gweithredol lle bydd gofyn i'r Aelodau gymeradwyo argymhellion y PMC mewn perthynas â materion sydd heb eu dirprwyo.

## Argymhelliad

8 Gofynnir i'r aelodau nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.